COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl214

Amseru: Arferol

Teitl: Llais dioddefwyr yn hyfforddiant HDP – Cwmni Cynhyrchu Fideo

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ymgysylltu

Crynodeb Gweithredol:

Yn unol â gwaith y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, aeth Adran Dysgu a Datblygu Heddlu Dyfed-Powys at Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) i ofyn i'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr eu cynorthwyo i roi llais i ddioddefwyr wrth hyfforddi swyddogion a staff yr heddlu.

Bwriedir cynnwys adborth dioddefwyr ar eu profiadau o Heddlu Dyfed-Powys (HDP) mewn fideo i'w ychwanegu at becyn hyfforddi presennol HDP a'i ddefnyddio ochr yn ochr ag ef, gan gyflwyno safbwynt bywyd go iawn i hyfforddiant.

Nid oes gan SCHTh yr arbenigedd i ddatblygu'r fideo hwn yn fewnol. Gan hynny, ceisiwyd cymeradwyaeth i ddod â chwmni cynhyrchu fideo allanol i mewn i weithio gyda SCHTh, HDP a dioddefwyr i gynhyrchu fideo proffesiynol sy'n creu effaith.

Cyn trafodaethau o gwmpas y fideo Llais Dioddefwyr, contractiodd SCHTh gwmni cynhyrchu fideo lleol, Optimwm, yn unol â gwaith y Fforwm Ymgysylltu â Phobl Ifainc. (Gweler Cofnod Penderfyniad DLl213.) Bydd fideo byr yn cael ei greu i ddangos sut mae'r heddlu'n gwneud i bobl ifainc deimlo.

Gan fod y ddau fideo'n cynnwys Fforymau SCHTh, mae angen cysondeb o ran brandio, ymagwedd ac ymdeimlad y cynyrchiadau. Rhoddodd Optimwm amcanbris o £1,290, a manylion o ran sut y byddent yn ymdrin â'r fideo Llais Dioddefwyr. Ar ôl adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd, ceisir cymeradwyaeth er mwyn cynnig y gwaith o ddatblygu'r fideo i Optimwm.

Argymhelliad:
Contractio Optimwm i weithio gyda SCHTh, HDP a dioddefwyr, i gynhyrchu fideo proffesiynol sy'n cael effaith i'w ddefnyddio gan HDP ochr yn ochr â'i becynnau hyfforddi presennol; gan roi llais i ddioddefwyr.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: **Dyddiad: 16.03.2021**